Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

www.casgliadywerincymru.co.uk
www.peoplescollectionwales.co.uk

## Gweithgaredd Dysgu

Mae'r adnodd hwn yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer eich myfyrwyr drwy ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n bosibl ei ddefnyddio hefyd yn dempled i greu eich gweithgareddau eich hun drwy ddefnyddio gwefan Casgliad y Werin Cymru.

**Cam Cynnydd** 3

**Pwnc** Defnyddio Archifau i Ymchwilio i Hanes Lleol

**Teitl** **Ar Garreg Eich Drws – Llyfrau Log Ysgolion**
*Defnyddio archifau i ymchwilio i hanes lleol*

**Awdur** **Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a'r archifdai lleol a ganlyn: Archifau Gwent, Archifau Sir Benfro, Archifau Ynys Môn, Gwasanaeth Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam.**

## Defnyddio archifau i ymchwilio i hanes lleol – Llyfrau Log Ysgolion

Mae'r adnodd hwn yn edrych ar sut y gallwch ymchwilio i hanes eich ardal drwy ddefnyddio llyfrau log ysgolion fel math o ffynhonnell sydd ar gael mewn archifdai neu swyddfeydd cofnodion lleol a chenedlaethol yng Nghymru. Mae'n rhan o gyfres sy'n ffurfio'r blociau adeiladu sylfaenol er mwyn cael gwybod am hanes lleol.

Bwriedir i'r adnodd fod yn ganllaw i athrawon, i'w helpu i ddefnyddio ffynonellau cynradd yn yr ystafell ddosbarth. Gall yr adnodd helpu athrawon hefyd i weithio gyda'u harchifdy lleol i ddod o hyd i ffynonellau tebyg ar gyfer eu hardal eu hunain. Ei nod yw cyflwyno athrawon a myfyrwyr i'r mathau o ffynonellau archifol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer hanes lleol ac i ymgyfarwyddo â ffurf, golwg a chynnwys y ffynonellau.

# Ar Garreg Eich Drws – Llyfrau Log Ysgolion – Amcanion Dysgu

**Bydd y dysgwyr yn deall:**

- Rôl yr archifdai o ran darparu ffynonellau hanesyddol pwysig.
- Rôl defnyddio llyfrau log ysgolion fel math o ffynhonnell hanesyddol.
- Pa fath o fywyd oedd gan bobl ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn eu hardal leol o'i gymharu â bywyd mewn rhannau eraill o Gymru.

**Bydd y dysgwyr yn gallu:**

**Pwnc yn y Cwricwlwm – Hanes**
- Defnyddio ystod o ffynonellau, gan gynnwys TGCh, i chwilio am wybodaeth.
- Gofyn ac ateb cwestiynau perthnasol am y gorffennol.
- Adnabod gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau.
- Nodi'r gwahanol ffyrdd o gynrychioli a dehongli'r gorffennol.
- Dewis, cofnodi a threfnu gwybodaeth hanesyddol.
- Cyfleu syniadau, safbwyntiau a chasgliadau yn fwyfwy annibynnol mewn amrywiaeth o ffyrdd.
- Cynllunio'r dull ymchwilio i'w ddefnyddio, gan awgrymu ffordd o ganfod gwybodaeth berthnasol.

**Fframwaith Llythrennedd**
- Defnyddio ystod o strategaethau darllen priodol er mwyn deall testunau.
- Ymchwilio er mwyn datblygu dealltwriaeth lawn.
- Trefnu a dadansoddi gwybodaeth berthnasol.
- Trafod safbwyntiau/syniadau pobl eraill er mwyn sicrhau cytundeb.
- Cyfrannu at drafodaethau a chyflwyniadau.
- Nodi'r prif syniadau, y prif ddigwyddiadau a'r manylion ategol.
- Defnyddio strwythur sy'n briodol ar gyfer diben a ffocws y dasg.
- Defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer yr ysgrifennu.

# Ar Garreg Eich Drws – Llyfrau Log Ysgolion – Sgiliau

**Meddwl**
- Gofyn cwestiynau.
- Ysgogi gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth flaenorol.
- Cywain gwybodaeth.
- Penderfynu ar y broses/dull a'r strategaeth.
- Pwyso a mesur tystiolaeth, gwybodaeth a syniadau.

**Cyfathrebu**
- Datblygu a chyfleu gwybodaeth a syniadau.
- Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth gan ddefnyddio strategaethau darllen.
- Trefnu syniadau a gwybodaeth.
- Ysgrifennu'n gywir.
- Cyfleu gwybodaeth.

**TGCh**
- Canfod a datblygu gwybodaeth a syniadau.
- Creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.

# Ar Garreg Eich Drws – Testun Rhagarweiniol

## Cyflwyniad

Mae'r adnodd hwn yn rhan o gyfres o wyth. Mae pob adnodd yn y gyfres yn cyflwyno gwahanol fath o ffynhonnell hanesyddol. Mae'r mathau o ffynonellau hanesyddol sy'n cael eu cyflwyno yn yr adnodd hwn yn nodweddiadol o'r hyn y gallech edrych arnyn nhw mewn project hanes lleol ac maen nhw i gyd ar gael yn eich archifdy lleol.

Dyma'r gwahanol fathau o ffynonellau sy'n cael eu cyflwyno:

Y Cyfrifiad
Mapiau'r Degwm a Mapiau Arolwg Ordnans
**Llyfrau Log Ysgolion**
Ffotograffau
Cofrestrau Plwyf - bedyddiadau a marwolaethau
Cyfeiriaduron Masnach
Catalogau Gwerthu
Papurau newydd

Mae'r ffynonellau hanesyddol enghreifftiol ym mhob adnodd yn dod o bedair ardal yng Nghymru: Caergybi, Blaenafon, Saundersfoot a Wrecsam. Maen nhw'n deillio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Gan ddefnyddio'r rhain yn enghreifftiau, mae'n bosibl ymchwilio, creu cysylltiadau a chymariaethau, gofyn ac ateb cwestiynau, darganfod tirweddau a phobl, a'r cysylltiadau sydd rhyngddyn nhw.

Ceir ffilm fer sy'n cyflwyno archifau ac ar gyfer pob math o ffynhonnell, ceir ffilm fer arall sy'n esbonio'r math o ffynhonnell a sut y gallwn ei defnyddio i gael gwybod rhagor am hanes lleol. Mae trawsgrifiad o'r ffilmiau a'r mân-luniau yn y **nodiadau i athrawon.** Mae'r delweddau maint llawn ar gael drwy ddilyn y dolenni i wefan Casgliad y Werin Cymru.

Ar gyfer pob adnodd yn y gyfres mae sawl **tasg ar-lein** ar gyfer y disgyblion sy'n defnyddio'r ffynonellau o'r pedair ardal. Mae'n bosibl gweld y ffynonellau hyn ar-lein ar wefan Casgliad y Werin Cymru drwy ddilyn y dolenni sydd ar daflenni tasgau'r disgyblion. Mae **gweithgareddau ychwanegol** hefyd sy'n awgrymu sut y gallai'r disgyblion ddefnyddio ffynonellau eu harchifdy lleol i ymchwilio i'r hanes lleol sydd ar garreg eu drws. Mae'r gweithgareddau ychwanegol hyn yn galluogi disgyblion i gymharu a gwrthgyferbynnu eu hardal hwy ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Ceir manylion archifdai lleol a chenedlaethol Cymru ar ddiwedd y nodiadau i athrawon.



Gwylio'r ffilm – yr Archif a'r Archifdy

# Ar Garreg Eich Drws – Ffilm Ragarweiniol – Llyfrau Log Ysgolion

Rhagarweiniad byr ar ffilm sydd yma lle mae archifydd yn esbonio llyfrau log ysgolion fel math o ffynhonnell a sut y gallwn eu defnyddio nhw i gael gwybod rhagor am hanes lleol.

Gwyliwch y ffilm ragarweiniol – Defnyddio Llyfrau Log Ysgolion

# Edrych ar Archifau — *Llyfrau Log Ysgolion*

## Defnyddio llyfrau log ysgolion

Mae'r adnodd hwn yn edrych ar sut y gallwch ymchwilio i hanes eich ardal drwy ddefnyddio llyfrau log ysgolion. Mae pedair enghraifft o lyfrau log ysgolion*:

- **Ysgol y Parc, Caergybi**. Enghraifft o lyfr log dyddiedig 15 Mawrth-16 Ebrill 1897.
- **Ysgol Wladol (Gymysg), Blaenafon**. Enghraifft o lyfr log dyddiedig 15 Gorffennaf-2 Medi 1887. Yn y pen draw, yr enw ar yr ysgol hon oedd *Ysgol Iau/Babanod Wirfoddol Sirol San Pedr*.
- **Ysgol Brydeinig, Saundersfoot, Sir Benfro**. Enghraifft o gofnod llyfr log a'r rheolau ar gyfer y flwyddyn 1897.
- **Ysgol Babanod Cefn Mawr, Wrecsam.** Engreifftiau o ddau lyfr log dyddiedig 17 Mawrth-19 Mai 1882 ac 17 Ebrill-1 Mai 1896.

**Mae trawsgrifiadau o'r ffurflenni ar gael yng nghefn y nodiadau i athrawon, ac mae dolen yno hefyd at y trawsgrifiadau ar-lein ar wefan Casgliad y Werin Cymru.*

Mae ysgolion wedi gorfod cadw cofnodion manwl er 1863 ac efallai fod gan rai gofnodion cynharach byth. Mae'r pedwar llyfr log sydd yma yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 1870 a 1897.

Roedd llyfrau log ysgolion yn debyg i ddyddiadur dyddiol neu ddyddlyfr y byddai'r pennaeth yn ei gadw. Yn y llyfr log, roedd digwyddiadau pwysig ym mywyd bob dydd yr ysgol yn cael eu cofnodi. Roedd y rhain yn cynnwys ymweliadau'r arolygwyr, y llywodraethwyr neu ymwelwyr eraill, aelodau newydd o'r staff a staff yn gadael, y nifer a oedd yn bresennol, a'r rhesymau dros absenoldeb, er enghraifft salwch ac epidemig, tywydd eithafol a digwyddiadau tymhorol, er enghraifft y cynhaeaf. Cofnodwyd dathliadau lleol a chenedlaethol hefyd. Roedd hyfforddiant ac arholi Disgybl-Athrawon a Monitors yn cael eu cofnodi ac weithiau, byddai enwau disgyblion yn cael eu nodi pe baen nhw'n cael damwain, yn ddifrifol sâl, yn cael eu cosbi neu'n llwyddo mewn arholiadau. Er bod y llyfrau log yn tueddu i ganolbwyntio'n bennaf ar waith bob dydd yr ysgol, maen nhw hefyd weithiau'n cofnodi'r digwyddiadau a'r amgylchiadau lleol a oedd yn effeithio ar rediad yr ysgol.

Yn ystod y tasgau, defnyddiwch y dolenni i'r casgliadau sydd ar wefan Casgliad y Werin Cymru i edrych ar y llyfrau log ar-lein. Drwy gymharu'r llyfrau log, mae modd cael gwybodaeth ddefnyddiol am y pethau a oedd yn debyg a'r pethau a oedd yn wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

# Ar Garreg Eich Drws – Llyfrau Log Ysgolion / Tasg 1

**Beth mae llyfrau log ysgolion yn gallu ei ddweud wrthym am y pynciau a oedd yn cael eu dysgu yn yr ysgol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg?**

Astudiwch lyfrau log yr ysgolion o'r casgliad isod.

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasg.**

Edrychwch ar dudalennau gwreiddiol llyfrau log yr ysgolion. Faint o'r llawysgrifen wreiddiol y gallwch ei darllen? Allwch chi drawsgrifio rhan o dudalen o lyfrau log yr ysgolion? Sut mae hyn yn cymharu â'r trawsgrifiad gwreiddiol, sydd hefyd yn cael ei ddangos yn y casgliad?
Beth sy'n ei wneud yn fwy anodd neu'n wahanol i lawysgrifen fodern?
Gwnewch restr o'r pynciau a oedd yn cael eu dysgu. Ydyn nhw'n wahanol o ardal i ardal?

## Casgliadau ar gyfer Tasg 1

Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

# Ar Garreg Eich Drws – Llyfrau Log Ysgolion / Tasg 2

**Beth mae llyfrau log ysgolion yn gallu ei ddweud wrthym am afiechyd ac epidemigau ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg?**

Astudiwch lyfrau log yr ysgolion o'r casgliad isod.

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasg.**

Allwch chi ddod o hyd i unrhyw enghreifftiau o salwch neu epidemigau yn llyfrau log yr ysgolion?
Beth yw epidemig? Pa wybodaeth y gallwch ddod o hyd iddi am y dwymyn goch a difftheria?
Sut maen nhw'n eich gwneud chi'n sâl?
A fyddai angen i blant aros gartref o'r ysgol pe bai'r afiechydon hyn yn y teulu? Pa dystiolaeth sydd bod plant yn aros gartref o'r ysgol?

## Casgliadau ar gyfer Tasg 2

Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

## Ar Garreg Eich Drws – Llyfrau Log Ysgolion / Tasg 3

**Beth mae llyfrau log ysgolion yn gallu ei ddweud wrthym am bresenoldeb yn yr ysgol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg?**

Astudiwch lyfrau log yr ysgolion o'r casgliad isod.

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasg.**

Pam y byddai plant yn absennol o'r ysgol? Allwch chi ddod o hyd i enghreifftiau o blant yn absennol o'r ysgol? Beth yw'r rhesymau?
Allwch chi ddod o hyd i dystiolaeth sy'n dangos bod presenoldeb yn cael ei ystyried yn bwysig iawn ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg?
Pa resymau a oedd gan blant am adael yr ysgol?

### Casgliadau ar gyfer Tasg 3

Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

## Ar Garreg Eich Drws – Llyfrau Log Ysgolion / Tasg 4

**Beth mae llyfrau log ysgolion yn ei ddweud wrthym am reolau a disgyblaeth mewn ysgolion ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg?**

Astudiwch lyfrau log yr ysgolion o'r casgliad isod.

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasg.**

Darllenwch reolau ysgol Saundersfoot ym 1870 yn uchel. Pa reolau a fyddai'n dal yn berthnasol heddiw? Pa rai na fydden nhw'n berthnasol?
Sut fyddai plant yn cael eu disgyblu?
Gwnewch restr o unrhyw dystiolaeth y gallwch ddod o hyd iddi o reolau'r ysgol a disgyblaeth yn yr ysgol ym mhob un o'r llyfrau log.

### Casgliadau ar gyfer Tasg 4

Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

# Ar Garreg Eich Drws – Llyfrau Log Ysgolion / Tasg 5

**Beth mae llyfrau log ysgolion yn gallu ei ddweud wrthym am fywyd bob dydd yn yr ysgol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg?**

Astudiwch lyfrau log yr ysgolion o'r casgliad isod.

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasg.**

Allwch chi ddod o hyd i dystiolaeth am effaith tlodi ar ddisgyblion?
Pa fathau o gliwiau sydd yn y llyfrau log am fywyd bob dydd ac amgylchiadau byw yn yr ardal leol?
Pa fath o ddigwyddiadau lleol, gwyliau a dathliadau y gallwch gael gwybod amdanyn nhw drwy'r llyfrau log?

## Casgliadau ar gyfer Tasg 5

Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

***Da iawn chi. Rydych wedi gorffen eich tasgau ac rydych wedi casglu gwybodaeth drwy ddefnyddio llyfrau log ysgolion.***

## Dyma'ch cyfle chi i gael gwybod rhagor.

Mae'r enghreifftiau hyn yn rhoi rhyw syniad i ni am sut mae'n bosibl defnyddio llyfrau log i gael gwybod rhagor am ein hardaloedd lleol. Byddai darllen rhagor, er enghraifft dros gyfnod o flwyddyn, neu gymharu mis penodol dros nifer o flynyddoedd, yn gallu rhoi mwy o wybodaeth i ni.
Nid yw pob llyfr log wedi goroesi. Mae rhai wedi mynd ar goll neu wedi cael eu difetha, mae rhai'n dal i gael eu cadw yn yr ysgolion ac mae rhai wedi cael eu rhoi i archifdai lleol. Gallwch ofyn i'r archifydd ddangos llyfrau log ysgolion eich ardal i chi. Os ydych chi'n lwcus, efallai y bydd ganddyn nhw lyfrau log o'ch ysgol chi, yn enwedig os oedd hi ar agor yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

## Pa gwestiynau newydd fyddech chi'n hoffi cael atebion iddyn nhw?

**Gallwch wneud rhagor o ymchwil ar lein, yn eich archifdy, eich swyddfa cofnodion a'ch amgueddfa leol.**

**Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy neu'ch swyddfa cofnodion leol yn** www.archiveswales.org.uk/

**Gallwch ddod o hyd i'ch amgueddfa leol yn** http://www.culture24.org.uk/places+to+go/wales **(Saesneg yn unig)**

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn** www.llgc.org.uk/cy/

**Casgliad y Werin Cymru yn** www.casgliadywerincymru.co.uk

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn** www.cbhc.gov.uk

**Coflein yn** www.coflein.gov.uk

# Gweithgareddau Ychwanegol – Y Pynciau a Oedd yn Cael eu Dysgu

**Gan ddefnyddio llyfrau log ysgolion o'ch archifdy lleol, cymharwch sut mae'r pynciau a oedd yn cael eu dysgu yn eich ardal leol yn wahanol i'r pynciau a oedd yn cael eu dysgu yn yr ardaloedd eraill ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.**

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar lyfrau log ysgolion eich ardal chi yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Beth oedd y prif bynciau a oedd yn cael eu dysgu? Sut mae'r rhain yn wahanol i'r pynciau sy'n cael eu dysgu heddiw? Ydy hyn yn syndod i chi?

### *Edrych ar y pynciau a oedd yn cael eu dysgu ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif – gwersi am wrthrychau*



Roedd gwersi am wrthrychau'n boblogaidd iawn ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae un llyfr log yn sôn am dri: y Gwningen, Y Pwll Glo a'r Tŷ. Roedd y gwersi hyn yn canolbwyntio ar y gwrthrych (er enghraifft, cwningen) a phopeth yr oedd yn bosibl ei ddysgu am gwningen. Meddyliwch am yr holl bynciau y gallech ymdrin â nhw mewn gwers am wrthrych, yn crëwch wers am wrthrych y gallech ei rhoi i'r dosbarth!

**Dyma rai o'r pynciau y gallech eu trafod:**

- **Pam wnaethoch chi ddewis y gwrthrych?**
- **Beth fyddai strwythur y wers?**
- **Pa mor hir fyddai'r wers?**
- **Ffynonellau ymchwil.**

### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

- Edrychwch ar y llyfrau log ysgolion **sydd yng** Nghasgliad y Llyfrau Log**.** Pa dystiolaeth sydd nad oedd bechgyn a merched yn dysgu'r un pynciau?
- A oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod addysg ar gael am ddim ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg?




# Gweithgareddau Ychwanegol – Afiechydon ac Epidemigau

**Gan ddefnyddio llyfrau log ysgolion o'ch archifdy lleol, cymharwch sut roedd afiechydon ac epidemigau yn eich ardal leol yn wahanol i’r afiechydon yn yr ardaloedd eraill ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.**

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

## *Trafodaeth*

Edrychwch ar lyfrau log ysgolion yn eich archifdy lleol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.
Beth yw'r prif fathau o afiechydon ac epidemigau? Sut mae hyn yn wahanol i'r ardaloedd eraill? Sut mae'n cymharu â heddiw?

## *Edrych ar salwch ac epidemigau ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif - rheoli afiechydon ac epidemigau*

Sut roedd afiechydon ac epidemigau'n cael eu trin? Ar ôl astudio'r llyfrau log ysgolion o'r archifdy, bydd pob disgybl neu grŵp o ddisgyblion yn ymchwilio i afiechyd neu epidemig. Gallan nhw edrych ar y triniaethau y gallai cleifion ddisgwyl eu cael a chymharu hyn â gofal iechyd heddiw.



**Dyma rai o'r pynciau y gallech eu trafod:**

- **Triniaethau i gleifion – pa mor hawdd oedd cael gafael ar feddyg a thriniaeth feddygol?**
- **A oedd ysbytai'n gyffredin?**
- **A oedd gofal iechyd ar gael am ddim?**
- **Pa mor gyffredin oedd yr epidemigau?**
- **Faint o bobl fyddai'n marw yn yr epidemigau?**

## *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

- Gall y disgyblion ymchwilio i ysbytai lleol. Pa bryd yr adeiladwyd y rhain? Faint o gleifion maen nhw'n eu trin? Sut y byddai hyn wedi cymharu ag ysbytai yn y gorffennol?
- Beth yw’r ystadegau yng Nghymru yn awr ar gyfer yr afiechydon mwyaf cyffredin ers talwm, er enghraifft, y dwymyn goch, difftheria, y pas. Sut mae hyn yn cymharu â gweddill y Deyrnas Unedig, Ewrop a'r byd. Pam nad yw'r afiechydon hyn mor gyffredin yng Nghymru erbyn hyn?

*Mae dolen i’r ddogfen sy'n adolygu hanes ysbytai – 50 mlynedd o'r GIG yng Nghymru yn y nodiadau i athrawon.*




# Gweithgareddau Ychwanegol – Presenoldeb yn yr Ysgol

**Gan ddefnyddio llyfrau log ysgolion o'ch archifdy lleol, cymharwch sut roedd presenoldeb yn yr ysgol yn eich ardal leol yn wahanol i'r presenoldeb yn yr ardaloedd eraill ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.**

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar lyfrau log ysgolion o'ch archifdy lleol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Sut mae presenoldeb yn yr ysgol yn wahanol i'r ardaloedd eraill? Ai yr un rhesymau sy'n gyfrifol am absenoldeb o'r ysgol ym mhob ardal?

## *Edrych ar bresenoldeb mewn ysgolion ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif – ysgrifennu llyfr log ysgolion*



Ar ôl astudio'r llyfrau log yn ofalus, bydd pob disgybl neu grŵp o ddisgyblion yn ysgrifennu llyfr log ar gyfer cyfnod o'u dewis sydd wedi'i seilio ar eu dosbarth. Dylen nhw hefyd gynnwys unrhyw absenoldebau a'r rhesymau dros hynny ac unrhyw ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar gyfer yr ysgol gyfan.

**Gallai'r disgyblion gynnwys y wybodaeth ganlynol yn llyfr log eu hysgol:**

- **Enw'r ysgol a'r dosbarth.**
- **Pa wybodaeth y dylid ei chynnwys bob dydd yn y llyfr log, er enghraifft, y nifer sy'n bresennol, unrhyw ddigwyddiadau a allai ddylanwadu ar bresenoldeb, adroddiadau am y tywydd, a salwch ymhlith y dosbarth.**
- **Gwybodaeth ychwanegol, er enghraifft, ymwelwyr â'r ysgolion.**

### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

- Astudiwch bresenoldeb eich dosbarth yn yr ysgol. Ydych chi'n meddwl bod presenoldeb yn yr ysgol yn awr gystal ag yr oedd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif? Pam?
- Beth sy'n dylanwadu ar bresenoldeb yn yr ysgol nawr? Sut mae hyn yn wahanol i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif?




# Gweithgareddau Ychwanegol – Rheolau'r Ysgol a Disgyblaeth

**Gan ddefnyddio llyfrau log ysgolion o'ch archifdy lleol, cymharwch sut roedd rheolau'r ysgol a disgyblaeth yn eich ardal leol yn wahanol i'r rheolau yn yr ardaloedd eraill ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.**

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar lyfrau log ysgolion o'ch archifdy lleol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. A oes unrhyw dystiolaeth am reolau'r ysgol a disgyblaeth yn yr ysgol? O lyfrau log yr ysgolion, gwnewch restr o unrhyw dystiolaeth am reolau'r ysgol a disgyblaeth. Sut mae'r rhain yn wahanol i rai ardaloedd eraill? Sut maen nhw'n cymharu â heddiw?

## *Edrych ar reolau ysgolion a disgyblaeth ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif – ysgrifennu rheolau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a'r ysgol*



Bydd pob grŵp o ddisgyblion yn ysgrifennu set o reolau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a'r ysgol, gan roi'r rheolau y bydden nhw'n hoffi eu gweld. Wedyn, byddan nhw'n cymharu ac yn trafod y rheolau hyn mewn trafodaeth dosbarth cyfan, ac wedyn yn llunio set newydd o reolau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a hefyd restr o reolau maen nhw'n meddwl eu bod nhw'n bwysig i'r ysgol gyfan.

**Dyma rai o'r pynciau y gallech eu trafod:**

- **Pam maen nhw'n teimlo bod y rheolau'n bwysig?**
- **Sut y bydden nhw'n teimlo pe bai pobl yn torri'r rheolau?**
- **Beth yw'r canlyniadau pan fydd y rheolau'n cael eu torri?**
- **Beth sy'n digwydd pan fydd y rheolau'n cael eu cadw?**

### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

- Oedd diwrnodau'r ysgol yr un hyd ag y maen nhw heddiw? Pa dystiolaeth allwch chi ei gweld sy'n dangos faint o'r gloch yr oedd yr ysgol yn dechrau ac yn gorffen? Sut mae hyn yn cymharu ag ysgolion heddiw?
- Allwch chi weld unrhyw beth yn debyg rhwng y ffordd yr oedd ysgolion bryd hynny a'ch profiad chi o'r ysgol heddiw?




# Gweithgareddau Ychwanegol – Bywyd Bob Dydd

**Gan ddefnyddio llyfrau log ysgolion o'ch archifdy lleol, cymharwch sut roedd bywyd bob dydd yn eich ardal leol yn wahanol i fywyd bob dydd yn yr ardaloedd eraill ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.**

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar lyfrau log ysgolion o'ch archifdy lleol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Beth mae'r rhain yn eu dweud wrthym am fywyd bob dydd? Sut mae hyn yn wahanol i'r ardaloedd eraill? Sut mae'n wahanol i heddiw? Sut y byddai sefydlu'r ysgol wedi dylanwadu ar fywyd bob dydd?

## *Edrych ar yr ysgolion lleol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif – hanes ein hysgol*

Bydd y disgyblion, mewn grwpiau, yn ymchwilio i hanes eu hysgol, gan ddefnyddio'r gwahanol fathau o ffynonellau sydd ar gael iddyn nhw, gan gynnwys mapiau, ffotograffau ac archifau lleol ac ar-lein.



**Gallai'r disgyblion gynnwys y wybodaeth ganlynol:**

- **Ydy enw'r ysgol wedi newid?**
- **Pa bryd yr adeiladwyd yr ysgol?**
- **Sut y talwyd am adeiladu'r ysgol a phwy wnaeth dalu?**
- **Sut mae'r ysgol wedi newid dros gyfnod?**

### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

- Edrychwch ar lyfrau log yr ysgol o'r archifdy lleol. A oes unrhyw dystiolaeth ar gyfer maint yr ysgol? Sut mae ysgolion wedi newid tybed?
- Edrychwch ar lyfr log ysgol Saundersfoot yn y Casgliad Llyfrau Log Ysgolion. Mae bachgen yn Saundersfoot wedi cael damwain ar y buarth. Pam? Beth wnaeth yr ysgol? Beth fyddai'n digwydd yn yr ysgol pe bai hyn yn digwydd heddiw?

## Gwnewch arddangosfa o'ch ymchwil i greu casgliad ysgol ar wefan Casgliad y Werin Cymru.


    

## Mae llyfrau log ysgolion yn gallu rhoi llawer o wybodaeth ddefnyddiol i ni am ein hardal leol a'n helpu ni i greu llun o'r gorffennol.

**Dyma drawsgrifiad o'r ffilm sy'n sôn am ddefnyddio llyfrau log ysgolion gan ddefnyddio un ardal yn enghraifft.**

**Mae trawsgrifiadau llyfr log ysgol Saundersfoot ar ddiwedd y nodiadau hyn.**

*"School reopened after being closed for a period of 7 weeks owing to measles".* Ysgrifennwyd hyn mewn llyfr log yng Nghaergybi ym mis Ionawr 1897. Roedd yr ysgolion yn nhref Caergybi i gyd wedi'u cau oherwydd y salwch, a hyd yn oed ar ôl agor yr ysgol eto, cafodd y plant a oedd yn dod o gartrefi lle'r oedd plant wedi bod yn sâl yn cael eu hanfon adref.







**Beth yw llyfr log Ysgol?**


Mae'n debyg iawn i ddyddiadur, sef bod yr awdur yn cofnodi unrhyw wybodaeth ddiddorol sy'n digwydd yn ystod yr wythnos yn yr ysgol. Roedd yn rhaid i ysgolion a oedd yn cael eu hariannu gan y llywodraeth gadw cofnod o'r hyn a oedd yn digwydd yn yr ysgol.

Pa wybodaeth y gallwn ni ei chasglu o lyfr log ysgol? Nid yw pob llyfr log yn cynnwys yr un wybodaeth. Mae rhai yn cofnodi trefniadau bob dydd yr ysgol, a dim mwy na hynny. Mae eraill yn cadw gwybodaeth ddiddorol am ddisgyblion a'u bywydau. Bydd y rhan fwyaf yn cynnwys gwybodaeth am bresenoldeb a digwyddiadau lleol.

Mae'r wybodaeth y gallwch ei chasglu am bresenoldeb plant yn gallu bod yn ddiddorol iawn er mwyn dysgu am draddodiadau ehangach y gymuned ei hun. Yn eithaf aml, byddai'r presenoldeb mewn ysgolion gwledig yn gostwng yn sylweddol adeg y cynhaeaf am fod angen i'r plant helpu eu teuluoedd gartref. Cofnodir yn aml bod y tywydd yn effeithio ar bresenoldeb disgyblion, er enghraifft, pan fyddai cawodydd eira arbennig o drwm, byddai'r ysgolion weithiau'n cau. Yn llyfr log Ysgol y Parc sydd gennym yma, cafodd ychydig o sesiynau drilio eu canslo oherwydd bod y gwynt yn rhy gryf. Rydym ni i gyd yn gallu cofio diwrnodau pan gaeodd yr ysgol oherwydd eira neu'n fwy diweddar, efallai fod eich ysgol wedi'i chau oherwydd llifogydd. Byddai'r mathau hynny o ddigwyddiadau i gyd wedi cael eu cofnodi yn y llyfr log. Gallai tywydd da effeithio ar bresenoldeb hefyd petai angen gwneud gwaith ar y fferm neu gartref.

Os edrychwn ar y cofnod ar gyfer Mawrth 22 ar y dudalen nesaf, mae llongddrylliad ym Mhenrhos Feilw, wrth ymyl yr ysgol, wedi effeithio ar y niferoedd. Llong nwyddau oedd *The Editor* a oedd yn hwylio o Frasil i Lerpwl ac yn cludo cotwm a siwgr. Mae Ynys Môn yn enwog am ei llongddrylliadau a byddai llawer o bobl i lawr at lan y môr i weld y drylliadau ac weithiau i weld beth a oedd wedi'i olchi i'r lan.





Dolen i'r ddelwedd

Yn ein henghraifft yma, gallwn weld bod traddodiadau lleol hefyd yn effeithio ar bresenoldeb. Ar 12 Ebrill roedd y plant dilyn traddodiad clapio wy, pan fydden nhw'n canu cân yn gofyn am wyau, ac felly mae'r log yn dweud *"attendance somewhat thin in the morning".*

Yn yr un llyfr log o Ysgol y Parc, mae nodyn yn dweud bod plant goleudy Ynys Lawd wedi ymuno a'r ysgol. Mae derbyn plant o oleudy Ynys Lawd yn bwysig oherwydd mae'n dangos i ni bod ceidwad y goleudy a'u deulu yn byw yno ar y pryd. Erbyn heddiw, mae'r goleudy'n cael ei oleuo'n awtomatig. Nid oes angen ceidwad goleudy yno hyd yn oed. Mae goleudy Ynys Lawd yn bwysig iawn oherwydd ei fod yn helpu i dywys y llongau'n ddiogel i borthladd Caergybi. Mae pont yn cysylltu'r ynys â'r tir mawr a 400 o risiau i'ch arwain i ben y bryn. Er mwyn gorffen eu taith i'r ysgol, byddai plant Ynys Lawd wedyn wedi cerdded 3 milltir.

Mae gwybodaeth am wersi wedi'i chynnwys yn y llyfr log hefyd ac yn aml bydd y cynnydd y mae disgyblion wedi'i wneud mewn pynciau penodol yn cael ei nodi. Gan mai ysgol i fechgyn yw hon, roedden nhw'n cael gwersi drilio gan feistr drilio. Mae'n cael ei alw'n Sergeant Chance. Mae awdur y llyfr log yn cynnwys gwersi dyddiol ac mae arolygydd wedi bod yno i arsylwi ar addysgu'r gwahanol bynciau, felly gallwn weld yn glir beth mae'r bechgyn wedi bod yn ei ddysgu. Os edrychwn ar ychydig o enghreifftiau o'r gwersi, gallwn weld mai daearyddiaeth, darllen a sillafu oedd rhai o'r pynciau. Ai dyma'r mathau o wersi y byddwch chi'n eu cael yn eich ysgol chi?

Mae llyfrau log yn gallu rhoi llawer o wybodaeth i ni, fel rydych wedi'i weld yma. Mae edrych ar lyfr log yn dangos pa mor bwysig yw cofnodi pethau oherwydd nid ydym byth yn gwybod pwy allai ddefnyddio'r wybodaeth honno yn y dyfodol.

## Adnoddau Eraill

Dolen i ddogfen (Saesneg yn unig) sy'n adolygu hanes ysbytai - 50 mlynedd o'r GIG yng Nghymru (diolch i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Cyfleusterau).

www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/254/50%20years%20of%20the%20NHS%20in%20Wales.pdf

Mae'n bosibl bod gan amgueddfeydd 'focsys trin a thrafod' sy'n cynnwys arteffactau a fydd yn help i ddod â hanes yn fyw. Gofynnwch i'ch amgueddfa leol am fanylion.

## Trawsgrifiadau ar gyfer llyfrau log ysgolion

Mae trawsgrifiadau ar gael ar gyfer y canlynol:

Yr Ysgol Brydeinig, Saundersfoot: tudalennau 268, 277 a 278; a Rheolau'r Ysgol, tudalennau 5, 6, 7 ac 8.
Ysgol Wladol Blaenafon: tudalennau 410 a 411.
Ysgol Y Parc, Caergybi: tudalennau 113 a 114.
Ysgol Babanod Cefn Mawr, Wrecsam: tudalennau 85 a 86; a thudalennau 357 a 358.

Mae'n bosibl gweld y trawsgrifiadau a'r cofnodion cyfatebol o lyfrau log yr ysgolion ar-lein yng Nghasgliad y Llyfrau Log Ysgolion:

---

## Trawsgrifiad o Lyfr Log Ysgol – Ysgol Brydeinig, Saundersfoot

**Transcription for School Log Book – British School, Saundersfoot**

**SSR/1/69/1 Page 268**

Page 268

| | |
|---|---|
| 10 | Thos. Morgan fell on his forehead before 10 o'clock to day playing at leapfrog in the playground. He did not speak and was al-lowed to remain where he was by the other lads who did not think he was seriously hurt, there being no mark on him. At 1.30 Thos Hughes (Monitor) saw him and immediately fetched Dr Allen who had him removed to his own house. He has not spoken yet (4 o'clock) |
| 16 | During the dinner hour, the Scholars were divided into four groups and photographed |

# Trawsgrifiad o Lyfr Log Ysgol – Ysgol Brydeinig, Saundersfoot

**Transcript of School Log Book – British School, Saundersfoot**

**SSR/1/69/1 Pages 277 & 278**

Page 277

| | |
|---|---|
| 13 | Alma Hare still unwell.<br>Scholars admitted at 1.30<br>dismissed at 4 o'clock |
| 19 | Alma Hare still unwell.<br>Mr Griffiths visited |
| 20 | Mr Griffiths informed me of<br>the Examination of P.T's at Narberth<br>24th of this month |
| 26 | Rev. Geo. Baucroft + Mr Griffiths<br>visited |
| 30 | Alma Hare, though very much<br>better is still to [sic] unwell to be at<br>School |
| May 3 | Alma Hare came to school again<br>to day. Mr Griffiths visited. |
| 5 | Mr Griffiths visited |
| 6 | Do, Do |
| 10 | Dr Evans has allowed the Simpsons<br>to come to school again. The only<br>case of small pox in the neighbour [sic]<br>is Mr Scourfield, the husband<br>of the woman that died about<br>2 ½ miles away |

Page 278

| | | |
|---|---|---|
| | Examination May 13th 1880<br>Extra Subjects<br>Boys:- Grammar & Geography<br>Girls:- Grammar & Needlework. | |
| | | |
| | List of tunes | |
| 20/6/79 | Jack Frost | No. 17 |
| 23/7/79 | Good-bye, Old Schoolroom | No. 21 |
| 10/11/79 | The Mouse | No. 23 |
| 6/2/80 | Well Spent Days | No. 13 |
| | | |
| | Infant Songs | |
| 22/6/77 | To the Fields | No. 8 |
| 10/1/79 | Be in Time | No.18 |
| 19/10/77 | School | No. 16 |
| 22/5/79 | The Merry School Boy | No. 1 |

## Trawsgrifiad o Lyfr Log Ysgol – Ysgol Brydeinig, Saundersfoot

**Transcript School Log Book Rules – British School, Saundersfoot**

**SSR/1/69/1 Pages 5 & 6**

### Rules

Page 5

1. Boys to enter School by the Right-hand Gate and Door, (looking from the Ridgeway), and play in the Right-hand Play-ground. Girls on the opposite side.

2. To be in the Play-grounds, and (unless it Rains) strand in a Line near the Hedge at the side, morning and afternoon, when the Second Bell rings.
   Morning Bell to ring, from September to April, at 9.15 + 9.25
   " " " " " March to October, " 8.45 + 8.55
   Afternoon Bell to ring at 1.45 and 1.55

Page 6

3. To come to, and go from School, without quar-relling and contention; and, on leaving School, to make haste home.

4. To attend School with hands and faces Clean, and hair neatly combed.

5. To be promptly obedient to orders, without impertinence.

6. To be silent during Lesson-time, and whenever The Master calls for silence.

7. Not to hand on the Gates, Doors; or Hat-pegs.

8. Not to climbs the Walls, or injure the Hedges.

9. Not to throw stones, sticks, or mud, on or near the school premises.
   Broken panes to be paid for.

10. Not to curse, or swear, or use bad words: Nor call ill names in or about the school.

# Trawsgrifiad o Lyfr Log Ysgol – Ysgol Brydeinig, Saundersfoot

**Transcript School Log Book Rules - British School, Saundersfoot**

**SSR/1/69/1 Pages 7 & 8**

Page 7

11. Not to chalk, ink, or pencil-mark Walls, Doors, or Desks, either in the School, Classroom, or Closets.

12. Not to ink, or pencil-mark, or tear, any of the school books, pictures, placards, or maps: nor turn down the corners of the books.
Any article wilfully damaged, to be paid for.

13. Not to cut names or marks in the Wood-work, nor stand on the Forms or Seats.
No knife to be used.
Pencil to be pointed before School begins.

14. Not to keep hands in pockets.

15. Not to spit on the Floor, or throw upon it scraps of waste and dirty paper.

16. Not to copy from each other during Class time; nor assist each other, unless ordered to do so.

Page 8

17. Not to touch the Fires, unless ordered to do so.

18. Not to carry home anything belonging to the school, without the permission of the Master.

Saundersfoot B.S., January, 1870.

**Trawsgrifiad o Lyfr Log Ysgol – Ysgol Wladol, Blaenafon – tudalen 410**

## Transcript for School Log Book - National School, Blaenavon

## Page 410

410 1887

| | |
|---|---|
| July 15. | Lily Witchell (Candidate) absent from School all the week through illness. The Vicar visited on Tuesday. A large fair in the town caused a very small attendance on Monday afternoon. Average for the week = 156. |
| July 18. | An Eisteddfod is being held today in the Park. Several girls are competing for prizes & others are absent for parents to go. Only 120 girls in School. |
| July 22. | Mr Dowden visited this afternoon. The annual Distribution of Prizes took place. Mrs and Miss Wharton came at 3.30 to give them away. The Vicar with Mrs Kenward and Miss Mynors also came in during the distribution. A special Prize for Needlework was given by Mrs Wharton – a very handsome case beautifully fitted up. The Vicar gave a prize book to the girl who did best at the Religious Examination, in each Standard – four in all. |

## Trawsgrifiad o Lyfr Log Ysgol – Ysgol Wladol, Blaenafon – tudalen 411

### Transcript for School Log Book - National School, Blaenavon

### Page 411

1887 411

| | |
|---|---|
| July 22. | The Religious Examination took place on Wednesday morning.<br>Ordinary work in afternoon.<br>Average attendance = 149:1 |
| " 25. | Called over & examined the Registers & found them correct: J.R.Leigh |
| July 29. | Ordinary School work till noon on Thursday. In the afternoon a Tea Party was given to all the departments of the National School. With this the Schools were broken up for summer holidays.<br><br>Holidays from July 28th to August 29.<br>The Rev. R.P. Hill died during holidays. |
| Aug 29. | Reopened School. All teachers present, but only 130 girls. The Vicar visited in afternoon.<br>Admitted four girls.<br>One girl left for America during the holidays, and one has been sent to Abergavenny Workhouse. |
| Sep 2. | Average for week = 140.9 |

## Trawsgrifiad o Lyfr Log Ysgol – Ysgol y Parc, Caergybi – tudalen 113

**Holyhead - Transcript of School Log Book – Ysgol Y Parc**

**Page 113**

113
1897

| | |
|---|---|
| March 15<br>to<br>March 19 | Mon School visited in the morning by Mr Treflyn Jones, Attendance Officer who inquired after certain irregular attendants. Physical Drill from 10.15 to 10.45 a.m.<br>Tues O.P<br>Wed Physical Drill from 10.15 to 10.45 . Object lesson on The Rabbit given to std iii + on Coal Mine to std i.<br>Thurs O.P<br>Frid School dismissed at 4.15 pm. Attendance thin<br>Average for week 119. |
| March 22<br>to<br>March 26 | Mon The weather being extremely boisterous no drill was given today. There being a ship wrecked (The Editor) at Penrhos Feilw early this morning the attendance in the afternoon is affected much.<br>Tues O.P<br>Wed The Drill Inspector has not turned up this morning:<br>At 10.25 am Mr Roberts M.A. H.M.I. visited school without notice. He remained in school morning + afternoon. |
| H.M<br>Inspector's<br>Visit | He examined std i in Geography. Spelling – Word building + Arith e. Std ii in Poetry Grammer, Dictation. Std iii in Reading + Geography. Std v in Comp n + Reading Std vi in Reading (King Lear) + Words (Black Board). P. Teaching was heard in Reading.<br><br>Average for the week 128 |

# Trawsgrifiad o Lyfr Log Ysgol – Ysgol y Parc, Caergybi – tudalen 114

**Holyhead - Transcript of School Log Book – Ysgol Y Parc**

**Page 114**

1897 114

| | |
|---|---|
| March 29<br>to<br>April 2 | Mon Oscar Hewitt (monitor) at home ill this week.<br>Special lesson given to Std ii by the Head Teacher on Theory of Long Multiplication: also to std i in the theory of Calculation.<br>Tues Drill taken this morning instead of Monday.<br>Wed Drill from 10.15 to 10.45 am<br>Thurs O.P<br>Frid O.P Average for the week – 118 |
| April 5<br>to<br>April 9 | Mon Lesson on Ocean Currents to std xi + xii + in Geog to Std ii<br>Tues Register tested by Mr W.D Jones Chairman of the Board who reported that all were marked and found correct.<br>Wed Drill from 10.15 to 9.45. Ordinary meeting of the<br>Thurs. O.P School Board. Application made to the Board<br>Frid Drill from 10.15 to 9.45. Singing in the afternoon.<br>from 3.30 to 4.15.<br>Sat P.T's Exam at Bangor Average for the week 113 |
| April 12<br>to<br>April 16 | Mon This being the day for Clapping for Easter eggs the attendance is somewhat thin in the morning<br>Tues Attendance improved. Drill in the morning<br>Object Lesson given to std ii on the House<br>Wed Physical Drill in the morning<br>Thurs O.P<br>Good Friday Holiday |

## Trawsgrifiadau o Lyfr Log Ysgol – Ysgol Babanod Cefn Mawr, Wrecsam tudalennau 85 ac 86

### Transcription of the Log Book of Cefn Mawr Infant School 1874-1904 (ref SR 1)

1882 Page 85 & 86 – Social information -Includes information about illness prevalent at the time; fact that pupils paid fees to the Board for attendance and miners being on strike affecting the ability to pay the fee; punishment for being late.

| | |
|---|---|
| 85 | |
| 1882 | |
| March 17th | T. D. Jones Esqr [Esquire]. Called on Wednesday afternoon. Made out a list of absentees for Mr. Pritchard on that day. Average attendance for the week 139.2 |
| March 24th | The Rev. J. Brownson Crewe and Mr. Davies Manchester paid a visit to the school on Monday. Was absent during the remainder of the week owing to illness. Miss Peake managed during my absence in a satisfactory manner. |
| March 31st | Was away from school owing to illness all this week. The average for the week has improved 142.2. |
| April 6th | Returned to school on Monday. School closes to-day (Thursday) for Easter Holidays one week. Average attendance for the past week 143.7 |
| April 14th | Easter Holidays |
| April 17th | Re-opened school to-day after the Easter Holidays, the attendance very poor |
| April 24th | Made out a list of absentees on Tuesday the attendance during the past week has been very low, owing to Scarlet |

| | |
|---|---|
| | 86 |
| | Fever and Diptheria being very prevalent. Average attendance 118.1 |
| April 30th | Excused E. M. Peake's lessons this week on account of illness. The attendance has improved. The average being 141. End of the quarter, average attendance 133.5. Ordinary progress |
| May 5th | The attendance has been lower this week owing to much sickness being about. The fees too have been very low owing to the strike among the colliers. Both teachers and scholars have worked well during the past week. Made out a table of work for each class for the month of May. |
| May 12th | Examined the different classes this week, and found an improvement. Made out a list of absentees for Mr Pritchard. L. L. Archer absent this afternoon (Friday) Average attendance for the past week 138.8 |
| May 19th | Admitted three new scholars this week. The older has not been good, so have had to keep the children in later on that account. Caned several scholars for coming to school late. Average attendance 142.3 |

## Trawsgrifiadau o Lyfr Log Ysgol – Ysgol Babanod Cefn Mawr, Wrecsam tudalennau 357 a 358

1896 Page 357 & 358 – social information about children taking their father's dinners to them at work; subjects being taught in the school at that time

| | |
|---|---|
| 357 1896 | Acrefair School. The children had become brighter & better scholars & so their loss is a loss to the credit of the school & teachers. |
| April 17th | Average attendances for the week 141.8 |
| April 23rd | A Holiday given today on account of an election taking place in the schools. |
| " 24th | Mr J Denbigh Jones. Clerk to the Board visited the school this morning. Find from Mr Pritchard's list, the absentee visitor, that I have lost again one boy & one girl who have gone to Acrefair School. S. A. Jones has not been but 2 days in school during the last fortnight. Had a medical certificate from her doctor saying she suffered from Neuralgic Pain. |
| April 28th | Admitted two girls today. Miss Jones Girl's Mistress brought them, as she found they could not follow 1st Standard work. |
| April 29th | Some of the children come to school late in the afternoon ~~following~~ owing to the |

| | |
|---|---|
| 1896 | 358 |
| | oldest children taking their fathers' dinners to Penybont. The little ones accompanying them. Some of their mothers, again, are very late getting their children's dinners ready. |
| May 1st | Average attendances for the week 156.1. |
| | The school was examined this week being the end of the 2nd Quarter of the school year. |
| | Results :- 1stClass. Reading quietly improving. Examined up to Page 50 in their Books. Two of the best boys of their class have left during this Quarter. Gave hints to the teacher how to get the children to read with expression. |
| | Writing For the last few weeks, have put the teachers of this class to the third, taking the class myself in writing. Have recalled better writing & cleaner slates. The teacher of this class is not careful enough & watchful of small faults. Menl:Arith [Mental Arithmetic] Good. |
| | Slate Arith [Arithmetic] Gave them a catchy little sum in subtraction with the result that about half the class got it wrong. The addition was correctly done by all the class save one boy & one girl. Told teacher to give her class more Std Arith [Standard Arithmetic] than she does, using Balls for aids in counting. |

# Rhagor o Wybodaeth – Archifdai Lleol

## Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy lleol isod:

Archifau Gwent enquiries@gwentarchives.gov.uk Ffôn: 01495 353363

Archifau Morgannwg glamro@caerdydd.gov.uk Ffôn: 029 2087 2200

Archifau Prifysgol Abertawe archives@swansea.ac.uk Ffôn: 01792 295021

Archifau Prifysgol Aberystwyth archives@aber.ac.uk Ffôn: 01970 628593

Archifau Prifysgol Bangor archives@bangor.ac.uk Ffôn: 01248 382966

Archifau Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant rodericbownlibrary@tsd.ac.uk Ffôn: 01248 38296

Archifau Ynys Môn archifdy@ynysmon.gov.uk Ffôn: 01248 751930

Archifdy Ceredigion archives@ceredigion.gov.uk Ffôn: 01970 633697/633698

Archifdy Cymdeithas Hynafiaethau Castell-nedd westglam.archives@abertawe.gov.uk Ffôn: 01639 620139

Archifdy Gwynedd, Meirionnydd archifau.dolgellau@gwynedd.gov.uk Ffôn: 01341 424 682

Archifdy Gwynedd, Caernarfon archifau.caernarfon@gwynedd.gov.uk Ffôn: 01286 679095

Archifdy Sir Ddinbych archif@sirddinbych.gov.uk Ffôn: 01824 708250

Archifdy Sir Benfro record.office@pembrokeshire.gov.uk Ffôn: 01437 775456

Archifdy Sir y Fflint archives@siryfflint.gov.uk Ffôn: 01244 532364

Gwasanaeth Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam archives@wrecsam.gov.uk Ffôn 01978 297480

Gwasanaeth Archifau Conwy archifau.archives@conwy.gov.uk Ffôn 01492 577550

Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, Abertawe westglam.archives@abertawe.gov.uk Ffôn 01792 636589

Gwasanaeth Archifau Sir Gaerfyrddin archives@sirgar.gov.uk Ffôn: 01267 228232

Prifysgol Caerdydd, Casgliadau Arbennig ac Archifau keelanp@caerdydd.ac.uk Ffôn: 029 2087 5678

## Gallwch ddod o hyd i ragor o adnoddau ar-lein, yn eich archifdy, eich swyddfa cofnodion a'ch amgueddfa leol.

**Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy neu'ch swyddfa cofnodion leol yn** www.archiveswales.org.uk/

**Gallwch ddod o hyd i'ch amgueddfa leol yn** www.culture24.org.uk/places+to+go/wales **(Saesneg yn unig)**

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru:** www.llgc.org.uk/cy/

**Casgliad y Werin Cymru:** www.casgliadywerincymru.co.uk

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru:** www.cbhc.gov.uk

**Coflein:** www.coflein.gov.uk